

Amlinelliad o'r Cymwysterau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r cymwysterau TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg CBAC arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymwysterau ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymwysterau yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymwysterau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru fel a ganlyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
 - sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau mewn un iaith yn cael eu trosglwyddo a'u meithrin mewn ieithoedd eraill
 - datblygu eu dealltwriaeth, eu hempatbath a'u gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol
 - defnyddio ieithoedd er mwyn bod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth
 - cynnig profiadau llenyddol, sy'n gallu ennyn eu diddordeb fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storiwyr a llenorion.
- Cefnogi egwyddorion cynnydd² drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
 - tyfu mewn ffordd gyfannol o ran sut maen nhw'n deall ac yn gallu gwneud defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
 - datblygu eu repertoire ieithyddol drwy ddod i ddeall sut mae eu hieithoedd eu hunain yn gweithio
 - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol
 - meithrin sgiliau iaith derbyn, dehongli a mynegi
 - trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod i gyd-destunau newydd gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar iaith.
- Cefnogi'r Ystyriaethau Allweddol ar gyfer Datblygu Ieithoedd³ drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig
 - parhau i wneud cynnydd ym mhob un o'u hieithoedd o'u manau cychwyn gwahanol.

Bydd y cymwysterau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg hefyd yn seiliedig ar y canlynol:

- deall ac ymateb i iaith lafar ac ysgrifenedig
- nodi negeseuon a dod i gasgliadau
- defnyddio gwybodaeth am ramadeg
- cyfieithu o iaith yr astudiaeth ac yn ôl iddi

¹ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

² [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Egwyddorion cynnydd - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

³ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

- cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol wrth siarad ac yn ysgrifenedig
- rhestr eirfa graidd sy'n seiliedig ar eirfa sy'n cael ei defnyddio'n aml ac iaith bob dydd
- defnyddio ynganiad a goslef cywir
- defnyddio gwybodaeth am adnabyddiaeth ddiwylliannol a rhanbarthol.

Bydd Unedau 1, 3 a 4 yn seiliedig ar y themâu eang canlynol (mae is-themâu'n cael eu rhoi mewn cromfachau fel enghreifftiau o'r hyn y gallai pob thema eang ei gynnwys):

- **iaith ar gyfer hamdden a llesiant**, er enghraifft: corff iach, meddwl iach, eich hun a pherthnasoedd, defnyddio technoleg a'r cyfryngau
- **iaith ar gyfer teithio**, er enghraifft: teithio o gwmpas y byd, diwylliant y wlad lle mae'r iaith yn cael ei siarad, cynaliadwyedd
- **iaith ar gyfer astudio a gweithio**, er enghraifft: cyfleoedd i astudio a gweithio, gweithio gydag ieithoedd gartref a thramor.

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Uned 1: Siarad a Gwrando

Asesiad Di-arholiad

30% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan CBAC

AA1 20%, AA2 2% AA3 8%

Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu

Asesiad Di-Arholiad

15% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan CBAC

AA2 15%

Uned 3: Gwrando

Arholiad ysgrifenedig

20% o'r cymhwyster

AA1 20%

Uned 4: Darllen ac Ysgrifennu

Arholiad ysgrifenedig

35% o'r cymhwyster

AA2 23%, AA3 12%

Cymhwyster llinol fydd hwn.

Nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.


Gwybodaeth am Unedau

Uned 1

Pwrpas yr uned hon yw:

- galluogi dysgwyr i gyfathrebu'n ystyrlon drwy siarad
- dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r iaith sy'n cael ei hasesu drwy eu hymatebion
- mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- cyfrannu at sgwrs.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y canlynol:



Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad dros gyfnod o bump wythnos rhwng Ebrill a Mai ym mlwyddyn olaf y cwrs. Gan fod hon yn uned sy'n ymwneud â gwrando, darllen a siarad, bydd yr asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau gwahanol a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Mae'r asesiad yn debygol o fod tua 10-15 munud o hyd gyda 15 munud o amser paratoi. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon. Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol.


CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r asesiad.

Uned 2

Pwrpas yr uned hon yw:

- galluogi dysgwyr i ddangos eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithas y gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad a gwneud cysylltiadau â'u hieithoedd a'u diwylliant eu hunain.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:




Asesiad di-arholiad fydd yr uned hon yn ystod y gyfres haf ym mlwyddyn olaf y cwrs, gyda chymysgedd o dasgau sy'n targedu AA2. Gall canolfannau/dysgwyr ddewis darn o destun (comics, darnau o sgriptiau/nofel fer/nofel, nofelau graffig, barddoniaeth, straeon byrion, caneuon, trawsgriadau o rywun yn siarad, is-deitlau) i'w hastudio, y mae'n rhaid iddyn nhw adlewyrchu'r cysyniadau uchod. Bydd CBAC yn rhyddhau cyfres o dasgau i'r canolfannau bob blwyddyn yn y mis Medi cyn y gyfres haf y mae'n rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad ynddi. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol a bydd CBAC yn ei farcio. Bydd tua 1 awr a 30 munud ar gael ar gyfer yr asesiad.

Uned 3

Pwrpas yr uned hon yw:

- galluogi dysgwyr i ddeall iaith drwy wrando ac ymateb
- nodi negeseuon a dod i gasgliadau
- cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig
- dangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith sy'n cael ei hasesu

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y canlynol:




Asesir yr uned drwy arholiad ysgrifenedig fydd ar gael yn y gyfres haf ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1. Mae debygol y bydd yr arholiad yn 45 munud o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 4

Pwrpas yr uned hon yw:

- galluogi dysgwyr i ddeall ac ymateb i iaith ysgrifenedig
- nodi negeseuon a dod i gasgliadau
- cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig
- dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a strwythurau'r iaith sy'n cael ei hasesu
- mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar gyfer cynulleidfaoedd a phwrpasau gwahanol
- cyfieithu o'r iaith sy'n cael eu hasesu i Gymraeg/Saesneg ac i'r gwrthwyneb.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y canlynol:



Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA2 ac AA3. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tua 2 awr o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Ystyriaeth o Hydrinedd, Ymgysylltiad, Dibynadwyedd a Dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad arfaethedig hwn o'r cymhwyster, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl y Meini Prawf Asesu mae angen i 45-50% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy asesiad di-arholiad sydd wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.

Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi bod yn rhaid i'r cymhwyster fod yn llinol, rhaid i Uned 1 ac Uned 2 fod ar gael yn nhymor y gwanwyn. Mae canolfannau wedi arfer â pharamedrau amseru'r asesiad siarad presennol (Uned 1), er hynny deallwn y gallai asesiad di-arholiad ychwanegol (Uned 2) effeithio ar hydrinedd. Fodd bynnag, bydd dysgwyr yn elwa o gynnal yr asesiad mor agos at ddiwedd y cwrs â phosibl. CBAC fydd yn cwblhau'r marcio a bydd hynny'n gwneud y mwyaf o'r addysgu a dysgu.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig gynnis cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgygliadau'r Cwricwlwm i Gymru. I wneud y cymhwyster yn ddeniadol i ddysgwyr, seilir yr unedau ar gynnwys sy'n berthnasol i bobl ifanc a bydd Uned 2 yn caniatáu i ganolfannau ddewis darn o lenyddiaeth i'w astudio yn seiliedig ar y cysyniad 'mae ieithoedd yn ein cysylltu ni'.

Credwn y gellir asesu pwrpas a chynnwys yr unedau gwrando, darllen ac ysgrifennu (Unedau 3 a 4) yn ddilys drwy arholiad. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau'n fodd i'n helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad.

I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson. Daethpwyd i'r casgliad bod lefel uchel o reolaeth yn angenrheidiol ar gyfer y ddwy uned asesiad di-arholiad er mwyn sicrhau gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad di-arholiad yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i'r cymwysterau **TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg**:

- 1.1 gael eu dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu trwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
- 1.4 galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Nodau

2. Rhaid i'r cymwysterau **TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg**:

- 2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg
- 2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

3. Rhaid i'r cymwysterau **TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg** gefnogi Dysgwyr i:

- 3.1. ddeall yr iaith drwy ddatblygu sgiliau gwrando, darllen a gwyllo
- 3.2. cyfathrebu'n glir, yn gywir ac yn greadigol drwy ddatblygu sgiliau siarad ac ysgrifennu
- 3.3. dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a strwythurau yn yr iaith a asesir
- 3.4. mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at wahanol gynulleidfaoedd a dibenion
- 3.5. cyfrannu at sgysiau a thrafodaethau
- 3.6. dangos eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithasau'r gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad a gwneud cysylltiadau â'u hieithoedd a'u diwylliant eu hunain.

Amcanion Asesu

Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

AA1	Deall ac ymateb i iaith lafar drwy gyfathrebu a mynegiant wrth siarad ac ysgrifennu.	40%
AA2	Deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig drwy gyfathrebu a mynegiant wrth siarad ac ysgrifennu.	40%
AA3	Dangos gwybodaeth am ramadeg, geirfa a chyfatebiaeth rhwng sain a sillafu.	20%

Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymwysterau **TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg** fod yn llinol.
- Ni fydd haenau yn y cymwysterau hyn.

Rhaid i'r cymwysterau **TGAU Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

- 14.1. rhaid asesu cyfanswm o rhwng 45% a 50% o'r cymhwyster trwy dasgau asesu di-arholiad a gaiff eu gosod gan y corff dyfarnu a'u marcio gan y corff dyfarnu:
 - 14.1.1. bydd y tasgau hyn yn canolbwyntio ar sgiliau siarad a gwranddo, a darllen ac ysgrifennu
 - 14.1.2. rhaid asesu 30% o'r cymhwyster trwy siarad a gwranddo a bydd gofyn i Ddysgwyr ddangos sgiliau deall ac ymateb, a sgiliau cyfathrebu a mynegi; bydd hyn yn cael ei wneud drwy dasgau unigol.
 - 14.1.3. bydd 15% i 20% o'r cymhwyster yn canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu
 - 14.1.4. ni chaniateir defnyddio geiriaduron wrth baratoi ar gyfer neu sefyll yr asesiad di-arholiad.
- 14.2. bydd arholiadau allanol yn cyfrif am rhwng 50% a 55% o'r cymhwyster a chânt eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu
 - 14.2.1. bydd yr asesiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ddysgwyr ddangos sgiliau deall ac ymateb, a sgiliau cyfathrebu a mynegi, trwy wrando, darllen ac ysgrifennu
 - 14.2.2. ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn ystod unrhyw arholiadau allanol.